# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5 (Hybrid)**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Mehefin 2023

Amser: 11.00 - 14:50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod: 11:00-11:15

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(11:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(11:15)

**2.1 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y cyfarfod o Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalen 1)

**2.2 Gohebiaeth rhwng yr Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Profiadau Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol**

(Tudalennau 2 - 5)

**2.3 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Gymuned Roma a'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.**

(Tudalennau 6 - 8)

3 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4, eitem 5 ac eitem 7 ar agenda'r cyfarfod heddiw.**

(11:15)

4 **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon - trafod yr adroddiad.**

(11:15-11:45) (Tudalennau 9 - 22)

5 **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(11:45-12:00) (Tudalennau 23 - 48)

**Egwyl 12:00-13:30**

6 **Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth**

(13:30-14:30) (Tudalennau 49 - 57)

7 **Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod y dystiolaeth**

(14:30-14:50)

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

12 Mehefin 2023

Annwyl Huw

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu o 39ain cyfarfod Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, sy'n digwydd yr wythnos hon ac sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Jersey.

Byddaf yn mynychu'r uwch-gynhadledd yn bersonol. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael diweddariad cyffredinol ar faterion, mae thema'r Uwchgynhadledd yn ymwneud â pholisi tai ac ynni a'i deitl yw 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol: Gwyrdd a Fforddiadwy'.

Bydd y Cyngor yn cytuno ar gyfathrebiad yn yr Uwchgynhadledd a fydd yn manylu ar y trafodaethau a gynhelir, a byddaf yn ysgrifennu atoch i'w rhannu â chi. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd gyda datganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.2

Ministry of Justice

Lord Bellamy KC
Parliamentary Under-Secretary of State for Justice

Jenny Rathbone MS
Chair
Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** ADR105254

12th June 2023

Dear Ms Rathbone,

**EQUALITY AND SOCIAL JUSTICE COMMITTEE REPORT: WOMEN'S EXPERIENCES IN THE CRIMINAL JUSTICE SYSTEM**

Thank you for your letter of 28 April and for providing me with a copy of the Welsh Government's response to your report on women's experiences in the criminal justice system.

As requested, please find below my comments on the recommendations that are relevant to my portfolio.

**Recommendation 1: The Welsh Government should map out the cost of the services it provides to identify those that it is responsible for as part of the current devolution settlement and those that currently fall within the responsibility of the Ministry of Justice. This work should be carried out by June 2023 and the Welsh Government should keep us informed of progress.**

I note the Welsh Government is undertaking a mapping exercise on the cost of services it provides and that this will be completed by the Autumn. With regard to services that fall within the responsibility of the Ministry of Justice (MoJ), reserved authorities and devolved authorities work extremely effectively together to deliver the services for which they are responsible, but it is important to note that the MoJ funds all services for which it is responsible.

**Recommendation 7: The Welsh Government should work with the Ministry of Justice and HMPPS to identify gaps and to ensure there are sufficient community-based alternatives to custody available specifically for women across Wales.**

His Majesty's Prisons and Probation Service (HMPPS) officials already work closely with the Welsh Government and other partners to deliver objectives set out in the joint MoJ and Welsh Government Women's Justice Blueprint. HMPPS leads the Community Sentences workstream which is developing, improving, and raising awareness of the community-based alternatives to custody by working with partners, providers and sentencers to ensure robust and effective community options for women appearing in Court.

**T** 020 3334 3555
**F** 0870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

**Recommendation 8: The Welsh Government must work with counterparts in the Ministry of Justice and with HMPPS to more clearly articulate the purpose and services the proposed Residential Women's Centre will offer.**

**Recommendation 9: The Welsh Government should work with the Ministry of Justice to ensure that Wales is represented in the development of the operational instructions and guidance relating to Residential Women's Centres.**

We are grateful for the Welsh Government's support for our plans to establish the Residential Women's Centre. Following the rejection by the Swansea planning committee on 4 October 2022 of the planning application for the refurbishment and extension of the proposed site for the Residential Women's Centre in Swansea, the MoJ submitted an appeal against the planning committee's decision on 2 March 2023 and we expect a decision in the Autumn.

In the meantime, the Residential Women's Centre team in HMPPS continues to work closely with Welsh Government officials on the development of plans for the Centre, which will include communicating its purpose and the services it will provide. The Welsh Government is represented on the project board and there has been regular engagement to ensure that the Centre will meet the needs of women and their families.

I am sure the Senedd debate on your report, which I understand is scheduled to take place on 24 May, will be an excellent opportunity for Members of the Senedd to discuss the excellent work on women's justice that is taking place in Wales.

Yours sincerely

Christopher Bellamy

**LORD BELLAMY KC**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Yr Arglwydd Bellamy CB
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

28 Ebrill 2023.

Annwyl Arglwydd Bellamy,

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:
Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Ymhellach i'n llythyr dyddiedig 9 Mawrth yn atodi copi o'n hadroddiad ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, rydym bellach wedi cael ymateb Llywodraeth Cymru ac mae copi ohono wedi'i atodi er gwybodaeth. O ystyried eu perthnasedd i'ch portffolio chi, byddem yn croesawu cael eich sylwadau mewn perthynas â'r argymhellion a ganlyn a'r sylwadau dilynol gan Lywodraeth Cymru:

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

Argymhelliad 8: Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod.

Trefnwyd dadl yn y Senedd ar ein hadroddiad ar gyfer dydd Mercher 24 Mai a byddem yn ddiolchgar felly i gael ymateb erbyn canol dydd ar 17 Mai os yn bosibl.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEquality@senedd.cymru

12 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Mai, ac am rannu adroddiad monitro diweddaraf y Pwyllgor.

Rwy'n nodi'r cwestiynau yr ydych yn eu codi yn eich gohebiaeth o ran cymorth i'r gymuned Roma, ac rwy'n ymateb i'r cwestiynau hynny isod:

**Cyngor a chymorth ar gyfer y gymuned Roma mewn perthynas â Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

Er bod nifer y ceisiadau am Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn parhau i ostwng, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd rhai dinasyddion yr UE yng Nghymru yn parhau i fod ag angen cymorth oherwydd ceisiadau hwyr, ceisiadau'n cael eu gwrthod, apeliadau a/neu geisiadau aelod o'r teulu sy'n ymuno. Gan gadw hyn mewn cof, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth pellach yn ddiweddar, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyngor yn parhau i gael eu darparu am o leiaf y 12 mis nesaf.

Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithiol, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi *pob* grŵp agored i niwed neu anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rheini yn y gymuned Roma.

Er nad yw TGP Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Gwasanaethau Cyngor ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect *Travelling Ahead* TGP Cymru, sy'n darparu cyngor a chymorth i gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Ar hyn o bryd, mae'r cyllid hwn yn weithredol hyd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

at 31 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar opsiynau i barhau â'r ddarpariaeth bresennol a chomisiynu darpariaeth ddiwygiedig o 2024 ymlaen, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth eirioli ymarferol a hygyrch ar gael i'r cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Hefyd, mae *Settled*, a ariennir ar hyn o bryd hyd at fis Mawrth 2024, wedi ei gofrestru i roi cyngor mewnfudo ar Lefel 3 Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo, a bydd yn parhau i gefnogi unigolion o bob cefndir. Mae gan *Settled* dîm bach o staff sy'n cynnwys cydgysylltwyr a chyfreithwyr, a rhwydwaith o 70+ o wirfoddolwyr ymroddgar sydd wedi eu lleoli ar draws y DU, ac sy'n medru dros 20 o ieithoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Romanes ar gyfer ei wasanaeth Roma dynodedig. Mae *Settled* hefyd yn rheoli grwpiau Facebook rhyngweithiol mewn amryw o wahanol ieithoedd ac mae gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd ar gael ar ei wefan.

Os oes gan TGP Cymru unrhyw ymholiadau cymhleth lle mae angen cyngor mewnfudo sy'n uwch na Lefel 1 Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo, gellir eu hatgyfeirio at *Settled* a fydd yn gallu helpu. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod *Settled* a TGP wedi cyflwyno cais ar y cyd yn ddiweddar am gyllid grant Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan Lywodraeth y DU. Gan ddibynnu ar ganlyniad y cais hwnnw, gallai'r gymuned Roma yng Nghymru gael ei chefnogi gan y ddau sefydliad hyn ar y cyd o ran materion Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'r hawliau cysylltiedig.

**Ethnigrwydd dinasyddion yr UE sy'n cael cymorth**

Nid yw Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am ethnigrwydd dinasyddion yr UE sydd wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac nid yw'n ofynnol i'n sefydliadau ni, a ariennir gan grantiau, gofnodi ethnigrwydd y cleientiaid y maent yn eu helpu i wneud cais i'r Cynllun hwnnw.

Mae'r Grŵp Cydgysylltu ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cynnig cyfle i godi pryderon ynglŷn â'r Cynllun hwn, ac oherwydd y diffyg data ystadegol, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y sawl sy'n darparu cyngor i roi gwybod inni am faterion sy'n ymwneud ag achosion agored i niwed/gwendidau penodol. Rydym wedi gofyn i TGP Cymru ddarparu data ar nifer yr unigolion yn y gymuned Roma a allai fod yn parhau i fod ag angen cymorth, er mwyn inni allu sicrhau bod digon o gymorth ar gael. Gan gadw hynny mewn cof, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid o'r cyfarfod Cydgysylltu ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn cael gwybodaeth anecdotaidd.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn rhoi manylion ac yn creu eglurder o ran y pwyntiau yr ydych wedi eu codi, a'i fod yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gyflawni ei haddewid i gefnogi dinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, a'r Swistir sy'n dymuno aros yma yng Nghymru, ac i hwyluso'r broses o ymgartrefu yng Nghymru iddynt.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

17 Mai 2023

Annwyl Jane

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: adroddiad monitro

Yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill, trafodwyd yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswylion Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) gan y rhai sy'n byw yng Nghymru ac, wedi hynny, cyhoeddwyd ein hadroddiad monitro diweddaraf. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y cyfnod y bydd yn rhoi cyngor a chymorth am ddim y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2023 ac wedi rhoi £200,000 ychwanegol i sefydliadau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a Settled ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel y gallant barhau i gynorthwyo dinasyddion yr UE yng Nghymru.

Er ein bod yn falch y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu dinasyddion Ewrop, rydym wedi clywed pryderon am y modd mae sefydliadau cynghori yn cyrraedd y rhai o gymunedau Roma. Mae llawer ohonynt yn methu siarad Saesneg, mae ganddynt lefelau llythrennedd isel ac anghenion cymhleth sy'n galw am gymorth ychwanegol a pharhaus, a hynny wyneb yn wyneb ac yn eu hiaith gyntaf. Am yr holl resymau hyn, mae Travelling Ahead wedi'n rhybuddio am y posibilrwydd nad yw llawer o'r gymuned Roma Ewropeaidd wedi gwneud cais am yr Hawl i Aros yn y DU, ac mae hynny'n eu gadael yn agored i bobl gamfanteisio arnynt ac iddynt orfod talu am wasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

Nid yw Travelling Ahead yn cael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, ac mae'r arian a gaiff gan Lywodraeth y DU yn lleihau. Er gwybodaeth, rwyf wedi ysgrifennu at Gyngor ar Bopeth i holi sut y maent yn bwriadu cyrraedd cymuned Roma yr UE ac i ba raddau y gallant gyfathrebu â nhw yn eu hiaith eu hunain.

- A allech chi ddweud a oes camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gymuned Roma yn cael cyngor a chymorth ac, os oes, beth yw'r camau hynny?

- Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag ethnigrwydd y rhai sydd wedi cael cymorth a chyngor, a sut mae hyn yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn cyrraedd y gymuned Roma.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y BIL DIODDEFWYR A CHARCHARORION

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

3. Ar 11 Ebrill, ysgrifennais at y Llywydd yn esbonio na fu'n bosibl gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o dan RhS 29. Nid oedd fy swyddogion wedi gweld y fersiwn derfynol o'r Bil, y newidiadau hwyr i'r Bil na'r Nodiadau Esboniadol cyn iddo gael ei gyflwyno, ac ni chawsant wybod ychwaith fod teitl y Bil wedi'i newid i 'Victims and Prisoners Bill' ('Bil Dioddefwyr a Charcharorion'). Mae nifer o ddarpariaethau ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys o fewn y Bil ers i gopi drafft gael ei gyhoeddi yn wreiddiol yn 2022. Oherwydd hyn mae wedi cymryd amser i ystyried yn llawn canlyniadau'r hyn sy'n cael ei gynnig drwy'r Bil o safbwynt datganoli, ac mae hyn wedi golygu colli'r terfyn amser gosod arferol o bythefnos.

### Amcan(ion) Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw cyflawni tri ymrwymiad maniffesto allweddol; pasio a gweithredu Cyfraith Dioddefwyr, diwygio'r system barôl, a sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i gefnogi dioddefwyr digwyddiad mawr. Yn ogystal, mae'r Bil yn ceisio cyflwyno newidiadau sy'n ceisio cryfhau gweithrediad y Bwrdd Parôl a sicrhau hyder y cyhoedd yn y system. Bydd y Bil hefyd yn gwahardd carcharorion sy'n destun gorchymyn oes gyfan rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil.

### Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dioddefwyr ymddygiad troseddol ac eraill y mae ymddygiad troseddol yn effeithio arnynt; penodiad a swyddogaethau unigolion i weithredu fel eiriolwyr cyhoeddus annibynnol dros ddioddefwyr digwyddiadau mawr; diwygiadau i'r system barôl; aelodaeth a swyddogaethau'r Bwrdd Parôl; gwahardd rhai carcharorion rhag ffurfio priodas neu bartneriaeth sifil; ac at ddibenion cysylltiedig.

*Ymgysylltu â Llywodraeth y DU*

7. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cymalau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Bil, a adwaenid ar y pryd fel y Bil Dioddefwyr, at ddibenion craffu cyn y broses ddeddfu ar 22 Mai 2022.

8. Ers y cyfnod craffu cyn y broses ddeddfu mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhannu rhai newidiadau arfaethedig a chymalau drafft ychwanegol ynglŷn â'r elfen Dioddefwyr yn y Bil gyda Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn sylweddol ehangach ei gwmpas na'r Bil drafft a gyhoeddwyd yn 2022. Yn benodol, nid oedd y Bil drafft yn cynnwys unrhyw gymalau yn ymwneud â'r system barôl, y Bwrdd Parôl na gallu carcharorion i briodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil. Ni welodd Llywodraeth Cymru'r Bil terfynol na'r Nodiadau Esboniadol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno; ni chafodd wybod bod cwmpas y Bil wedi ehangu fel hyn ac ni chafodd wybod bod teitl y Bil wedi newid i'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

*Cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 - Victims of Criminal conduct – Victims' code:*

9. Mae cymalau 1 a 2 yn ymwneud â'r diffiniad o "victim" ("dioddefwr") a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch y gwasanaethau sydd i'w darparu i ddioddefwyr gan bersonau sy'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol fel personau sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â dioddefwyr, neu unrhyw agweddau ar y system cyfiawnder troseddol.

10. Mae angen cydsyniad gan fod y cymalau hyn yn ymwneud â gwasanaethau diogelu, cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr sy'n feysydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth y DU o'r farn fod y cymalau hyn yn ymwneud ag ymgysylltiad dioddefwyr â'r system gyfiawnder ac felly'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef yr awdurdodaeth gyfreithiol sengl, plismona ac atal, canfod ac ymchwilio i droseddau a phlismona (paragraffau 8, 39, 40 a 41 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.) Er hynny, er bod gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu darparu o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol, mae'r ymddygiad troseddol eisoes wedi digwydd. Nid yw'n ymddangos bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â'r gyfraith droseddol a'n safbwynt ni yw nad yw diffinio dioddefwr trosedd at ddibenion y Bil yn effeithio ar awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr. Mae hyn hefyd yn wir o ran cyhoeddi cod ymarfer o ran y gwasanaethau sydd i'w darparu i ddioddefwyr.

11. Gan fod Cymalau 3 a 4 yn ymwneud â pharatoi ac adolygu'r cod dioddefwyr ac felly'n ategol i Gymal 1 a 2 mae angen cydsyniad hefyd.

12. Mae Cymal 11 yn ymwneud â'r gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar gyflawni dyletswyddau gan awdurdodau a gedwir yn ôl mewn perthynas â'r cod dioddefwyr. Gan fod gosod dyletswyddau ar yr Ysgrifennydd Gwladol a / neu awdurdodau a gedwir yn ôl yn rhan o'r cyfyngiad ym mharagraff 8(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ni allai'r Senedd ddeddfu darpariaeth sy'n atgynhyrchu'r cymal hwn yn uniongyrchol heb gydsyniad y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU. Ond gan fod y ddarpariaeth hon yn ymwneud â chyhoeddi canllawiau ar gyflawni dyletswyddau mewn perthynas â'r cod dioddefwyr (sy'n dod o fewn cymhwysedd), gallai'r Senedd, er enghraifft, greu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch cod dioddefwyr i Gymru. Mae hyn yn golygu y gallai'r Senedd ddeddfu darpariaethau tebyg i'r cymal hwn ac felly mae angen cydsyniad.

13. Mae Cymal 22 yn ymwneud â diogelu data ynghylch Rhan 1 o'r Bil gyda chymal 23 yn caniatáu ar gyfer darpariaethau canlyniadol. Mae'r cymalau hyn yn ategol i Ran 1 o'r Bil ac felly mae angen cydsyniad.

14. Er bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd, ni allai'r Senedd ddeddfu ar gyfer y gyfundrefn gyfan a amlinellir yn y Bil mewn perthynas â'r cod dioddefwyr. Er enghraifft, mae'r darpariaethau a nodir yng nghymalau 5 – 10 yn gosod dyletswyddau cydymffurfio ar awdurdodau a gedwir yn ôl ac felly'n sbarduno'r cyfyngiad ym mharagraff 8(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Fel y nodir ym mharagraff 12 uchod, byddai deddfu darpariaethau cyfatebol yn gofyn am gydsyniad y Gweinidog priodol. Heb y cydsyniad hwnnw, ni fyddai'r Senedd yn gallu sicrhau bod awdurdodau a gedwir yn ôl (gan gynnwys cyrff cyfiawnder megis heddluoedd a'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd) yn cydymffurfio ag unrhyw god dioddefwyr sy'n cael ei ddeddfu gan y Senedd. Byddai hyn yn golygu na fyddai cod o'r fath mor effeithiol â'i fersiwn gyfatebol yn Lloegr ac y byddai'n debycach i ganllawiau na dyletswydd.

*Cymal 15 – Victims of criminal conduct: Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors:*

15. Mae'r cymal hwn yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ynghylch cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol; a bod rhaid i unrhyw gyrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â dioddefwyr, neu'r system cyfiawnder troseddol, roi sylw iddynt.

16. Mae angen cydsyniad gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth o ran lles a diogelu, sy'n faterion datganoledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau datganoledig Cymru sydd â swyddogaethau perthnasol roi sylw i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol. O'r herwydd mae'r darpariaethau hyn felly yn “ddarpariaethau perthnasol” at ddibenion RhS29.

*Cymalau 24-27 a 29-31 – Victims of major incidents: Appointment of independent public advocate:*

17. Mae'r darpariaethau hyn yn creu'r rôl statudol newydd o Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol ("IPA") ac yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi unigolyn (neu nifer o unigolion) i weithredu fel IPA. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi mai diben yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yw *"provide advice and support to the bereaved and the injured following a major incident and through any investigation, inquest and inquiry that follows."*

18. Mae angen cydsyniad ar gyfer cymalau 24-27, sy'n ymwneud â phenodi'r IPA a'i swyddogaethau, gan fod y cymalau hyn yn ymwneud â maes datganoledig darparu gwasanaethau cymorth, cyfeirio, eirioli a lledaenu gwybodaeth. Mae cymalau 30 a 31, ar arferion rhannu gwybodaeth a chanllawiau ehangach ar gyfer IPAs, yn ategol i'r cymalau hyn ac felly mae angen cydsyniad hefyd.

19. Mae Cymal 29 yn gosod dyletswydd ar yr IPA i adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Gallai darpariaethau tebyg gael eu deddfu gan y Senedd, megis creu gofynion adrodd i Weinidogion Cymru, ac felly mae angen cydsyniad gan fod y ddyletswydd yn cael ei gosod ar rôl statudol sy'n dod o fewn cymhwysedd.

20. Mae cymal 28, sy'n diwygio adran 47(2) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 47 i wneud IPAs yn "interested person" ("person â buddiant") at ddibenion ymchwiliad neu gwest i farwolaeth person, yn eithriad ac nid oes angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn. Mae hyn oherwydd bod pwnc Rhan 1 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 wedi'i gadw yn ôl o dan baragraff 167, adran L3 (Crwneriaid) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

21. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 15 (Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors*)* ac ar gyfer cymalau 24-27 a 29-31 (Appointment of independent public advocates).

22. Nid yw Llywodraeth y DU wedi gallu rhoi barn eto ynghylch a oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 (Victims' code and ancillary clauses) cyn gosod yr LCM hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried y mater hwn a'i safbwynt.

**Cymalau o fewn cymhwysedd y Senedd lle <u>nad</u> argymhellir cydsyniad:**

*Cymal 15 - Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors:*

23. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth o ran lles a diogelu, sy'n faterion datganoledig. Ar sail hynny, ein barn ni yw mai Llywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU ddylai gyhoeddi unrhyw ganllawiau ar y mater hwn, yn unol â'n cyfrifoldebau datganoledig. Mae'r bartneriaeth Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn rhoi cyfle i ddatblygu ein diffiniadau ein hunain, a gallai bodolaeth canllawiau statudol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gymwys yng Nghymru fod yn ddryslyd a chyfyngol.

24. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ein cymwyseddau datganoledig ar VAWDASV ac yn sicrhau y bydd y sector arbenigol yng Nghymru yn gallu cyfrannu at unrhyw ganllawiau ar y mater hwn.

25. Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau adeiladol a chydweithredol â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â chymal 15. Mae'r argymhelliad i atal cydsyniad yn adlewyrchu'r ffaith fod y dirwedd wedi esblygu yng Nghymru, ac y sefydlwyd strwythur Partneriaeth Genedlaethol a Glasbrint ar gyfer cyflawni nodau'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015. Mae'r strwythur hwn yn fforwm allweddol i drafod penderfyniadau ac ymrwymiadau a rennir. Byddwn yn gofyn am sgyrsiau pellach ynghylch gwelliant i'r bil yn ddiweddarach yn dilyn ymgysylltu pellach â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r sector VAWDASV arbenigol yng Nghymru.

**Cymalau o fewn cymhwysedd y Senedd, lle mae materion allweddol o bryder i'w datrys cyn y gellir argymell cydsyniad:**

*Cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 - Victims' code and ancillary clauses:*

26. Ar hyn o bryd, rydym yn aros i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymateb i gwestiynau ynghylch statws cyfreithiol y Cod Dioddefwyr yng Nghymru, a'r risgiau y gallai amlinellu cyfrifoldebau a disgwyliadau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, ond nes y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn nid ydym mewn sefyllfa i argymell cydsyniad ar y cymalau hyn.

*Cymalau 24-27 a 29-31 - Appointment of independent public advocate:*

27. Fel y mae wedi'i ddrafftio, mae'r Bil yn dweud mai mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yw penodi IPA, ac nid yw'n adlewyrchu'r ffaith bod y darpariaethau hyn (ac eithrio cymal 28) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.. Rydym hefyd yn credu, er gwaethaf y ddeddfwriaeth hon, y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu penodi IPA

anstatudol yn dilyn digwyddiad yng Nghymru o dan y pwerau presennol. Felly nid yw buddion cynnwys Cymru o fewn y darpariaethau hyn yn glir ar hyn o bryd. Mae angen inni ymchwilio ymhellach i'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU cyn inni fod mewn sefyllfa i wneud argymhelliad o ran cydsyniad ar y cymalau hyn.

**Goblygiadau ariannol**

28. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Bil hwn.

**Casgliad**

29. Yn fy marn i nid yw'n briodol argymell cydsyniad mewn perthynas â Chymal 15, Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors.

30. Yn fy marn i nid yw'n briodol argymell cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol nes i drafodaethau pellach gael eu cynnal â Llywodraeth y DU.
    - Cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 - Victims' code and ancillary clauses
    - Cymalau 24-27 a 29-31 - Appointment of independent public advocate

**Jane Hutt AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**19 Mai 2023**

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**DECIPHer Written Submission – 06.06.23**

This submission highlights some relevant completed and ongoing research projects that may be useful to consider during any review of evidence.

1. The School Health Research Network (SHRN):

Our nationally representative survey across Wales included questions for students aged 11-16 related to dating and relationship violence. Only students who had ever dated or been in a relationship with someone of either sex, were asked whether they had experienced or perpetrated emotional and physical DRV. Emotional DRV was defined as hurtful comments, while physical violence included any of the following: being pushed, shoved, slapped, punched, kicked or beaten up.

In 2017, we published a research briefing drawing on this cross-sectional self-report data from 74 908 students aged 11-16 from 193 schools. It examined prevalence and predictors of dating and relationship violence victimization and perpetration separately, as well as overlapping victimization and perpetration. We found more girls (28%) than boys (20%) experienced emotional DRV victimization, but more boys (17%) reported physical victimization than girls (12%). A slightly higher proportion of girls than boys reported physical and emotional DRV perpetration. Compared to students living with both parents, adolescents from single or stepparent homes and those in care were slightly more likely to report some form of DRV victimization and/or perpetration. DRV showed patterning by age, ethnicity and living arrangements, as well as by gender. We found no association between family socioeconomic status and DRV.

The prevalence of DRV among young people in Wales highlighted it as a public health problem that is relevant to secondary schools. The age-related increase in all types of DRV in both girls and boys, highlighted the need for early, universal interventions. Mutual conflict within relationships, where young people are both perpetrators and victims of violence, suggests a need for interventions that focus on development of healthy relationships.

https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/ENGLISH-Young-DRV-Research-Brief-FINAL.pdf

SHRN will be asking the same questions again this year, so will have comparison data available in 2024.

2. Safe sex and relationships in Further Education (SaFE):

The Safer Sex and Relationships in Further Education (SaFE) pilot trial is designed to refine and test 'SaFE' an intervention for Further Education settings to improve sexual health and reduce dating, relationship, and GBV among young people. The project builds on 15 months of work with over 2000 students and 200 staff from six FE settings, 12 sexual health charity staff and an advisory group of 16-21 year olds (ALPHA) which identified that onsite sexual health services and staff safeguarding training about sexual health and relationships were wanted by these key stakeholders, but not currently, consistently available.

The SaFE intervention addresses these gaps by: 1) offering free onsite sexual health (e.g. condoms, STI tests and pregnancy tests) and relationship services; 2) publicising these services at a college level and; 3) training FE staff how to promote sexual health and recognize and respond to dating, relationship and GBV. We have worked with Further Education students, staff, parents, policy makers, subject experts (including third-sector) and a youth advisory group to adapt existing publicity and staff training materials for use in Further Education.

We have also now conducted a larger pilot trial of SaFE. We have surveyed students in eight Further Education settings across England and Wales about their experiences of sexual health, dating, relationship and gender-based violence, then randomly allocated six settings to receive the SaFE intervention and two to act as comparison 'control' sites. In sites delivering SaFE we have interviewed staff and students to find out what they think of the intervention, and we have observed the delivery in these settings. We then surveyed students in all sites 12 months later. The findings are currently being analysed, and will tell us whether a much larger study to test the effectiveness of SaFE is worthwhile.

3. School-based interventions TO Prevent Dating and Relationship Violence and Gender-Based Violence (STOP): DRV-GBV systematic review

This project involved a systematic review of existing school based GBV and dating and relationship violence interventions, exploring how they were expected to work, what factors affected their implementation in practice, how they had an impact on DRV and GBV, and what specific parts of the interventions were most effective and in what contexts.

The review found 247 reports on school-based interventions to prevent GBV or dating and relationship violence, most of which were conducted in North America. Interventions had student components (e.g. group discussions, individual reflection), staff components (e.g. training, lesson plans), parent/family components (e.g. involvement in intervention) and school structures or physical environment (e.g. changes to school policies).

There was stronger evidence for intervention effectiveness in reducing DRV than for GBV, with significant long-term impacts on DRV victimisation and perpetration. There was some evidence that interventions in high income countries could be effective for reducing victimisation and perpetration of GBV in the long-term. More complicated interventions were not more effective, and interventions tended to reduce dating and relationship violence perpetration in boys more than in girls. This project has identified where there are gaps in available evidence, which may provide avenues for future research.

4. Peer on peer abuse

A project commissioned by Welsh Government and led by Cardiff and Vale college is exploring learner experiences of peer-on-peer abuse, and perceptions around college level policies and procedures for responding to, and managing, peer-on-peer abuse. In this project, peer-on-peer abuse is defined as experiences of discrimination, hate speech, harassment and violence that arise within college, or beyond college, because of relationships formed at college - thus relevant to and including GBV. The project will answer the following research questions: - What are learner perceptions, experiences, and opinions of college level responses to peer-on-peer abuse across Wales? - How do colleges across Wales respond to peer-on-peer abuse? The ultimate aim of this work is to develop a professional learning resource for college staff to support them in effectively managing and responding to peer-on-peer violence; and the current research will inform subsequent years to develop this resource.

5. Published paper in collaboration with Cardiff Women's Aid.

DECIPHer worked closely with Cardiff Women's Aid to explore how the first COVID-19 lockdown impacted GBV. This paper examined their police referral data and demonstrated an increase in high-risk referrals, and the rise in children seeking help for GBV due to prolonged exposure from being at home. It also evidenced an increase in child to parent violence, accounting for 2% of police contacts in total. https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/34568944/

6. Child to parent violence and abuse:

Bethan Pell's PhD aims to extend the theoretical understanding of child to parent violence and abuse in the context of Wales. This is important and relevant to GBV, as the evidence suggests child to parent violence is a gendered phenomenon, instigated by sons towards mothers. However, these results are currently subject to methodological limitations, with varying results depending on samples, research methods and definitions used. These issues hinder our ability to make generalisations in the literature and ultimately impedes our understanding of this issue and ability to develop effective interventions. Developing a conceptual and theoretical understanding of CAPVA in Wales will go some way to extend the theoretical framework from which the knowledge base can be formed – a crucial first step for developing effective interventions.

7. Health Pathfinder:

This was a realist evaluation of a health-based GBV intervention in England which looked to increase awareness and expertise of health professionals to recognise, enquire, signpost and refer victim-survivors of GBV to specialist services, that were sometimes co-located in Health settings. Although these settings were based in England, it is clear that we need to continue this evidence-based practice across different systems, including health to target all victim-survivors of GBV.